Arwain drwy esiampl
‘Mae gan David holl rinweddau unigryw athro gwych.’

Cynllun ar ôl y pandemig
Beth nesaf wrth ar flwyddyn o Covid?

Tywys y Llywodraeth
Bydd addysg yn hollbwysig i bwy bynnag fydd wrth y llyw ar ôl 6 Mai.

addysgu yng nghymru

Rhifyn 67
Tymor yr haf 2021

undeb addysg cenedlaethol cymru

‘Mae pob un ohonoch chi’n arwyr’

CAFODD yr NEU yng Nghymru effaith wirioneddol ar bethau yn ystod pandemig y coronafeirws, diolch i waith caled yr aelodau.

(O’r chwith) Shavanah Taj, Daniel Kebede a Ceinwen Davies

Wrth i **Kevin Courtney**, y cyd-ysgrifennydd cyffredinol, agor trydedd cynhadledd NEU Cymru, a gynhaliwyd yn ddigidol ar 6 a 7 Mawrth, dywedodd y gallai cynrychiolwyr ac aelodau ymfalchïo yn y ffordd roedd y proffesiwn wedi ymateb i’r heriau a wynebwyd.

“Bydd llawer o hyd i’r undeb ei wneud wrth frwydro i sicrhau adferiad yn y byd addysg,” meddai Kevin, a gafodd ei eni a’i addysg ym Mhontypridd cyn gadael am y brifysgol yn Llundain.

Dywedodd fod lefelau tlodi wedi cynyddu ers dechrau ymgyrch gyni Llywodraeth San Steffan yn 2010. Roedd Covid wedi bwrw cryn oleuni ar hyn, a byddai’r NEU yn flaenllaw yn y gwaith i drechu tlodi plant ac anghydraddoldeb.

Un o’r siaradwyr gwadd oedd **Shavanah Taj**, ysgrifennydd cyffredinol Du cyntaf y TUC yng Nghymru. Aeth ati i ganmol y ffordd “hybrid” roedd addysgwyr wedi bod yn gweithio, gan addysgu yn ddigidol a/neu’n gorfforol drwy fynd i’r ysgol. “Mae’n fy nhristáu, ac yn wir yn fy nigio, pan fydd pobl yn edrych ar y sector ac ar y proffesiwn hwn gan dybio mai dim ond darparu gwasanaeth yw eu gwaith nhw. I mi, mae pob un ohonoch chi’n arwyr. Mae fy mhlant i wedi bod gartref, ac mae’r peth wedi bod yn hunllefus. Dydw i ddim yn gwybod sut rydych chi’n llwyddo yn eu cwmni nhw drwy’r dydd.”

Dywedodd bod gwir gyfleoedd i barhau i ddatblygu’r mudiad undebau llafur yng Nghymru, a diolchodd i’r aelodau am sicrhau bod pobl yn ddiogel yn y gweithle ac yn gwybod sut i fynnu eu hawliau.

Meddai **Robin Bevan**, llywydd yr NEU, a gadeiriodd y gynhadledd: “Allwch chi ddim addysgu plentyn sy’n byw mewn tlodi, sy’n pryderu mwy am yr hyn y bydd yn ei wynebu gartref na’r hyn y gall ei gael yn yr ysgol.” Dywedodd ei bod yn bryd i’r cyhoedd yn ehangach ddeall bod cael gweithwyr sy’n perthyn i undebau o fudd i’r cymunedau maen nhw’n eu gwasanaethu.

Ymhlith y siaradwyr gwadd eraill roedd **Daniel Kebede**, uwch is-lywydd yr NEU, ac **Avis Gilmore**, dirprwy ysgrifennydd cyffredinol yr undeb.

Roedd dros 100 o gynrychiolwyr o bob un o’r 22 ardal yn bresennol yn y gynhadledd, a’r rheini’n cynrychioli bron i 19,000 o aelodau yng Nghymru. Cytunwyd ar yr 14 cynnig polisi a roddwyd gerbron.

Crynodeb o’r cynigion polisi

■ CYTUNODD y gynhadledd y dylid ymddiried ym mhroffesiynoldeb a chyfrifoldeb athrawon i weithio gartref yn ystod sesiynau CPA yn y dyfodol.

Meddai **John Griffiths** o ardal Casnewydd: “Cyn mis Mawrth 2020, iechyd a diogelwch oedd y rheswm a fyddai’n cael ei roi dros wrthod gadael i staff weithio gartref.” Nid oedd angen meicroreoli athrawon bob awr o’r dydd, meddai, gan dynnu coes: “Wrth gwrs, efallai na allwch chi ymddiried yn rhai athrawon i gadw’u bysedd o’r tostiwr os nad oes un o’r uwch reolwyr yno i gadw llygad arnyn nhw.”

Cytunodd y gynhadledd hefyd, yn sgil cynnydd mewn baich gwaith, i alw am gynyddu’r amser CPA o ddeg y cant i 15 y cant o amser y contract.

■ Dywedodd **Daniel Kebede**, uwch is-lywydd yr NEU, fod aelodau am weld newid sylfaenol yng nghyfeiriad addysg: “Dyma fydd yr ail flwyddyn academaidd heb asesiadau cynradd tyngedfennol i amharu ar iechyd meddwl ein plant ac i gulhau ein cwricwlwm, felly gadewch inni sicrhau na fydd hyn byth yn dychwelyd.”

Dywedodd fod ysgolion wedi parhau’n ganolog i’w cymunedau drwy gydol y pandemig, a hynny heb arolygiadau. Doedd neb wedi gweld colli’r arolygwyr. Roedd graddau TGAU yn cael eu rhoi gan addysgwyr am yr ail flwyddyn, felly pam dychwelyd at system asesu uwchradd sy’n ddibynnol ar berfformiad mewn arholiadau, gofynnodd.

Dywedodd **Máiréad Canavan**, aelod o Adran Weithredol Cymru, ei bod yn bryd cydnabod y niwed sydd wedi’i wneud gan y “ffatrïoedd arholiadau” sy’n addysgu plant. “Mae angen inni ofalu bod y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cyflwyno newid er gwell. Dan y senario waethaf, bydd y system arholiadau’n parhau ochr yn ochr â’r cwricwlwm newydd.”

parhau ar dudalen 2

Newyddion

parhad o dudalen 1

■ MAE rhai staff sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac sy'n rhoi gofal personol i'w disgyblion wedi cael cynnig brechiad rhag y coronafeirws. Ond cytunodd y gynhadledd y dylai'r holl addysgwyr sy'n gweithio ym maes ADY gael eu trin fel grŵp blaenoriaeth a chael cynnig y pigiad.

■ "RYDYN ni i gyd yn ymwybodol o'r ymchwil sy'n dangos y gall bod mewn ystafell gydag awyr iach leihau'ch risg o gael eich heintio â'r coronafeirws," meddai **Daniel Wilson**, sy'n athro gwyddoniaeth o Flaenau Gwent. "Fel gwyddonydd a rhywun o leiafrif ethnig, mae'n fy ngwneud i'n rhwystredig pan na fydd pobl yn deall beth yw goblygiadau diffyg awyru, a hwythau ddim yn gweithio'u hunain mewn ystafelloedd dosbarth."

■ CYNHALIWYD munud o dawelwch yn ystod y gynhadledd i gofio am berthnasau a ffrindiau aelodau oedd wedi marw yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn benodol, crybwyllwyd dau o ymgyrchwyr yr NEU yng Nghymru, sef **Steffan ap Dafydd** a **Marilyn Bater**. Chwaraewyd cân Billy Bragg, Power of the Union, er cof amdanyn nhw.

■ MYNNODD yr aelodau y dylai'r cyflogau a'r amodau statudol ar gyfer ysgolion fod yn berthnasol i'r sector ôl-16 hefyd. Bydd NEU Cymru yn gweithio gyda'r undebau addysg eraill i ymgyrchu am degwch ac am gynnydd yn y cyllid er mwyn adfer yr arian mae colegau Addysg Bellach wedi'i golli ers 2010.

■ MAE athrawon benywaidd dros 45 yn wynebu gwahaniaethu a bwlio cynyddol, clywodd y gynhadledd. Meddai **Cheryl Latham**, y cynrychiolydd o Sir y Fflint: "Mae gan athrawon benywaidd hŷn flynyddoedd o brofiad proffesiynol, sgiliau, doethineb ac arbenigedd, ond maen nhw'n aml yn aflwyddiannus wrth wneud cais am swyddi, gan fod athrawon iau sy'n ennill llawer llai o gyflog yn fwy atyniadol i ysgolion sy'n brin o arian."

Dywedodd fod nifer o weithleoedd hefyd yn anaddas i fenywod sy'n wynebu problemau wrth ddelio â'r menopos. "Ni ddylid cynnig ymddeoliad cynnar neu becyn gadael i athrawon benywaidd hŷn fel ateb i'r sefyllfa y byddan nhw ynddi. Dylai'r amodau gweithio fod yn deg ac yn gyfartal, a dylai fod deddfwriaeth i'w gwarchod rhag anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar oedran a rhywedd."

Creu dinasyddion galluog a gwydn

ROEDD iechyd a lles disgyblion a staff yn flaenllaw ar agenda'r gynhadledd, gyda sawl cynnig yn adlewyrchu pryderon yr aelodau.

Wrth i ysgolion agor yn ehangach, dywedodd **Dai Edwards** o Sir y Fflint y bydd yn bwysig parhau i alw am gyfarpar diogelu personol addas i bob aelod o staff, ynghyd â galw am ddefnyddio staff glanhau proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant addas.

Rhaid gweinyddu'r profion llif unffordd yn gywir os ydyn nhw am fod yn effeithiol, a rhaid diweddaru asesiadau risg, meddai.

"Mae angen inni ddiogelu pobl, mae angen inni warchod ein huwch arweinwyr, sydd o dan straen aruthrol ar y funud, credwch chi fi," meddai Dai wrth y gynhadledd.

Cytunodd y cynrychiolwyr y dylai ymgyrch dros les staff fod yn flaenoriaeth, ac y dylai'r undeb alw am gyllido swydd llysgennad lles/iechyd meddwl staff ym mhob awdurdod lleol.

Cytunodd y gynhadledd hefyd i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod modd rhoi cymorth yn y fan a'r lle i bobl ifanc a theuluoedd sydd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl, er mwyn atal canlyniadau tymor hir.

Dywedodd **Kathleen Steelandt** o Sir Ddinbych fod nifer o blant wedi bod yn dyst i drais domestig, wedi colli anwyliaid, wedi gorfod bod ar wahân i'w ffrindiau, ac o bosib wedi gorfod byw heb awyr iach am gyfnod hir yn ystod y pandemig. Bydd angen i athrawon gael hyfforddiant sy'n gysylltiedig â goroesi trawma a datblygu lles meddyliol... "er mwyn inni roi cyfle haeddiannol i blant adfer a dod yn oedolion iach yn feddyliol".

"Mae'n gyfrifoldeb arnon ni i greu dinasyddion galluog a gwydn. Fel undeb rydyn ni'n chwarae rhan allweddol wrth wneud penderfyniadau am y daith sydd o'n blaenau," meddai Kathleen.

Galw am ailwampio'r cwricwlwm i roi sylw i gydraddoldeb

WRTH i athrawon ledled Cymru baratoi i groesawu'r cwricwlwm newydd y flwyddyn nesaf, roedd gan yr aelodau ddyletswydd foesegol i sicrhau bod hwnnw'n adlewyrchu'r holl ddisgyblion maen nhw'n eu haddysgu. Dylai'r cwricwlwm adrodd straeon am lwyddiannau'u hynafiaid, ond hefyd y straeon hynny sydd heb gael digon o sylw.

Gan siarad ar gynnig am ddadwladychu'r cwricwlwm, dywedodd **Julian Konten** o Gaerdydd bod mudiad Black Lives Matter unwaith eto wedi dangos pwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant.

"Yn bwysicach fyth, mae wedi dangos diffyg cynrychiolaeth neu dan-gynrychiolaeth pobl Ddu mewn gwahanol sefydliadau a sectorau, a'r byd addysg yn enwedig," meddai.

"Mae angen mwy o athrawon Du arnon ni a fydd yn gallu chwalu'r stereoteipiau a'r rhagfarn ddiarwybod sy'n bodoli mewn cymdeithas ac mewn ysgolion."

Yn gynharach, roedd **Roxanne Beckles** o Fro Morgannwg wedi rhestru enwau nifer o ddynion a menywod Du llwyddiannus, gan gynnwys dyfeiswyr, gwyddonwyr ac arwyr rhyfel, ond prin fod neb wedi clywed amdanyn nhw. Dywedodd fod angen ailwampio'r cwricwlwm ar frys i sicrhau eu bod nhw a phobl eraill debyg wedi'u cynrychioli. Cytunodd y gynhadledd y dylai'r newid ddechrau yn yr undeb drwy hyrwyddo a pharhau i roi sylw i bryderon aelodau Du, a'u cefnogi nhw i lywio polisi'r NEU.

Ymgyrch i achub ysgolion gwledig Cymru

MAE NEU Cymru yn ymgyrchu'n frwd i achub ysgolion gwledig ledled Cymru wrth i bryderon gynyddu am effaith cau ysgolion ar iechyd meddwl disgyblion a swyddi addysgwyr.

Mae nifer o ysgolion bychain yn Ynys Môn, Powys, Gwynedd, Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot yn wynebu'r bygythiad o gael eu cau, wrth i gynghorau o wahanol liwiau gwleidyddol anwybyddu galwadau gan gymunedau i ohirio prosesau ymgynghori am y tro, a ninnau mewn pandemig.

Dywedodd **Ceinwen Davies** o ardal Brycheiniog ym Mhowys fod nifer o siaradwyr wedi sôn am effaith y pandemig ar iechyd meddwl plant ac athrawon. "Dychmygwch sut y bydd y pryderon hyn yn gwaethygu ymhlith disgyblion a staff a fydd yn dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb, gan wybod bod eu hysgol yn wynebu bygythiad o gael ei lleihau neu'i chau'n gyfan gwbl," meddai. Mae rhai o'r ysgolion yn gwbl ganolog i gymunedau lle ceir cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mewn un achos, os bydd yr ysgol yn cau, dywedodd Ceinwen fod yr opsiynau eraill yn cynnwys anfon plant i'r ysgol yn Lloegr: "Go brin bod hynny'n syniad da a Llywodraeth Cymru'n awyddus i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

Ychwanegodd **Caroline Butchers** o Sir Gâr: "Arbedion a thoriadau yw'r prif bethau sy'n cymell y cau hwn, ac fel undeb rhaid inni sefyll yn gadarn yn erbyn y duedd barhaus hon i weld pob ysgol fel busnes."

Athro tan gamp

MAE David Church yn addysgu mewn ysgol yn un o hen gymoedd glo y de, mewn ardal lle mae traean y disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim.

David Church, enillydd Gwobr y Disgyblion am yr Athro Gorau yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2020

Ond mae'n falch iawn wrth ddweud: "Byddai ein plant bendigedig yn rhoi eu ceiniog olaf i elusen."

Mae David wedi bod yn addysgu yn Ysgol Gyfun Aberpennar ers dechrau gweithio yno fel athro newydd gymhwyso 23 mlynedd yn ôl. Yn anhygoel, yn y cyfnod hwnnw, mae David a'i ddisgyblion wedi codi £32,000 at wahanol achosion elusennol.

Mae'n bennaeth astudiaethau crefyddol ers 20 mlynedd, ac yn credu bod y pwnc yn golygu dysgu gwerthoedd i bobl ac arwain drwy esiampl. Mae David yn cydlynu nifer o raglenni codi arian a gweithredu cymdeithasol, a'r rhain wedi arwain at roi cyfleoedd a phrofiadau unigryw na fyddai disgyblion a chydweithwyr erioed wedi dychmygu eu cael.

Enwebiad gan ddisgyblion y gorffennol a'r presennol

Felly doedd hi'n ddim syndod – i'w ddisgyblion a'i gydweithwyr, o leiaf – iddo ennill Gwobr y Disgyblion am yr Athro Gorau yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2020. Cafodd ei enwebu nifer o weithiau gan ddisgyblion y gorffennol a'r presennol, a siaradodd 97 o bobl o'i blaid gerbron y panel barnu.

Dywedodd David wrth Addysgu: "Mae'r ffaith mai'r disgyblion eu hunain sy'n gyfrifol am y wobr newydd hon yn ei gwneud yn anrhydedd arbennig iawn."

Disgrifiodd y beirniaid David fel "esiampl i lawer o bobl, a rhywun sydd wedi cael effaith sylweddol ar ddysgu a lles, ac sy'n ymfalchïo yn llwyddiannau pobl". Ychwanegodd y beirniaid: "Mae'n malio'n fawr am gydraddoldeb i bawb, ac mae'n rhoi ymdeimlad go iawn o werthoedd moesol da a chydwybod cymdeithasol i'w holl ddisgyblion. Mae'n fwy na 'dim ond' athro; mae'n ffrind i bawb, ac mae ganddo holl nodweddion unigryw athro gwych."

David yw cydlynydd rhaglenni First Give, WE a Llysgenhadon Auschwitz yr ysgol. Mae hefyd yn cydarwain eu prosiect BOTAWA sydd wedi bod ar waith ers pum mlynedd, a hwnnw'n creu cysylltiadau rhwng ysgolion yn Botswana, Tanzania a Chymru er mwyn rhannu manteision addysgu a dysgu. Mewn dim ond tair blynedd yn gweithio gyda First Give, mae ei ddisgyblion blwyddyn 9 wedi codi dros £17,700 i 21 o elusennau lleol. Mae ei ymwneud â'r rhaglen WE wedi galluogi pump o ddisgyblion i ennill ysgoloriaethau gwerth £17,500 i helpu i godi ysgol yn Rajasthan, India.

Cwrdd â'r sêr yn hwb aruthrol

Drwy brosiectau o'r fath, mae disgyblion wedi cyfarfod yn breifat â Dug a Duges Sussex, ynghyd â nifer o sêr, gwleidyddion, ymgyrchwyr byd-eang, ac enillydd Gwobr Nobel.

Mae David yn credu bod y math yma o ymwneud ag unigolion amlwg yn hwb aruthrol i'w ddisgyblion, ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n "fwy arbennig fyth". Mae hefyd yn hwb i'w cydwybod cymdeithasol ac yn eu gwneud yn fwy penderfynol o lwyddo. Perswadiodd David yr actor Michael Sheen i anfon fideo yn llongyfarch y disgyblion, a'r llynedd anfonodd y seren deledu Carol Vorderman neges fideo deimladwy at un o'i ddisgyblion 15 oed, sef yr ieuengaf o Gymru i ennill Gwobr Diana 2020.

"Rwy'n credu'n angerddol mewn dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Rhowch gyfleoedd i blant a byddan nhw ffynnu ac yn rhagori."

Prosiect gyda disgyblion blwyddyn 7 fydd rhaglen elusennol nesaf David, a honno'n ceisio codi arian a chynyddu ymwybyddiaeth am Loches Epaod a Mwncïod Cymru, wrth i'r plant astudio materion moesol sy'n ymwneud â hawliau anifeiliaid yn nhymor yr haf. Erbyn hynny, mae David yn gobeithio y bydd sefyllfa'r pandemig yn dechrau gwella, ac y bydd yn ôl yn yr ysgol gyda'i ddisgyblion. Cafodd ei ysbrydoli ei hun i addysgu gan lawer o bobl, gan gynnwys ei athrawes astudiaethau crefyddol a aberthodd ei horiau cinio ac oriau ar ôl ysgol er mwyn iddo allu astudio'r pwnc ar lefel TGAU. Cafodd anogaeth gan academyddion ym mhrifysgolion Aberystwyth a Rhydychen, lle bu'n astudio, ac a "fagodd ynof awydd i sicrhau cydraddoldeb i bawb". Mae'n dweud bod ei ffydd Gristnogol yn sail i'w fywyd a'i waith.

Ond doedd David ddim yn debyg i'r athro astudiaethau crefyddol traddodiadol wrth ddechrau arni: "Mae gen i 13 tatŵ, chwe twll yn y corff, ac roedd gen i wallt hir iawn ers talwm." Wrth gwrs, fe dorrwyd y gwallt mewn digwyddiad i godi arian at elusen ganser plant, ond mae'r tatŵs yn dal yno, gan gynnwys un sy'n dyfynnu o'r beibl. Meddai David: "Ers yn 15 oed, roeddwn i'n gwybod mai addysgu roeddwn i am ei wneud, ac y byddwn wastad yn brysur iawn. Y plant yw fy mlaenoriaeth, a nhw sydd wastad yn dod gyntaf."

Newyddion

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18
Neptune Court,
Vanguard Way,
Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.
wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru:
Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru:
Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol:
Máiréad Canavan, Elizabeth McLean, Hannah O'Neill

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol,
Hamilton House, Mabledon Place,
Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Llywydd: Robin Bevan

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol:
Mary Bousted a Kevin Courtney

Cyfieithiad gan Rhys Iorwerth Cyf
rhysiorwerth@hotmail.com

Dyddiadau i'ch dyddiadur

Hyfforddiant i gynrychiolwyr

Mae cyrsiau rhithiol dros dro wedi disodli cyrsiau undydd a chyrsiau tridiau'r undeb i gynrychiolwyr newydd a phresennol. E-bost: **cymru.wales@neu.org.uk**

Mae rhagor o wybodaeth am gyrsiau cenedlaethol yr NEU ar gael yn **neu.org.uk/learning**

Rhagor o gyrsiau drwy WULF

Mae cyrsiau hefyd ar gael drwy brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac mae rhestr wedi'i diweddaru o'r pynciau i'w gweld yn **bit.ly/36PD1jP**

Cynllun adfer ar ôl y pandemig

MAE NEU Cymru yn galw am ohirio cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru am y tro, a hynny fel rhan o gynllun adfer i'r byd addysg a fydd yn dangos sut y byddwn yn symud ymlaen ar ôl cyfnodau clo'r flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal â chyflwyno ffordd ddiogel a chynaliadwy o gadw ysgolion ar agor, mae cynllun yr undeb yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r system addysg er mwyn galluogi disgyblion i adennill eu hyder a gwneud cynnydd.

Brechlynnau, rotâu a mwy

Mae rhan gyntaf y cynllun adfer yn canolbwyntio ar yr her o greu gweithleoedd addysg mwy diogel, ac ar barhau â dysgu o bell pan fydd angen. Mae hyn yn cynnwys brechu pob addysgwr, system rotâu mewn ysgolion i leihau gorlenwi, a chefnogaeth benodol ar gyfer darpariaeth anghenion arbennig a darpariaeth amgen.

Mae'r cynllun wedyn yn cyflwyno cynigion ar gyfer creu gwell system addysg i'r dyfodol, a fyddai'n cynnwys gohirio'r cyflwyno'r cwricwlwm newydd am y tro, a chanolbwyntio yn lle hynny ar "gwricwlwm adfer".

Dylid rhoi mwy o gefnogaeth hefyd i blant sy'n symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, ac ni ddylai'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol gael eu cynnal chwaith.

Mae'r cynllun yn gofyn a ddylai addysg fod yn orfodol i bobl ifanc dros 16 oed, er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc le wedi'i warantu mewn coleg i barhau â'u dysgu, rhag iddyn nhw gael eu "colli" o'r byd addysg.

Sylw i dlodi plant a lles

Mae rhan olaf y cynllun yn mynnu diwedd i dlodi plant: "Mae gormod o bobl ifanc yn byw gyda thlodi yng Nghymru ac yn byw ar aelwydydd lle gallai pobl wynebu effeithiau mwy sylweddol o lawer yn sgil Covid-19," meddai'r cynllun.

Mae'r undeb yn galw am warantu mynediad i blant i fand eang a gliniaduron, ac am ehangu darpariaeth prydau ysgol am ddim. Dylid mynd ati hefyd i lansio cynllun cenedlaethol ar gyfer lles plant, er mwyn cefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trawma yn ystod y pandemig. Dylai'r holl adnoddau angenrheidiol fod ar gael ar gyfer rhoi'r cynllun hwn ar waith.

Mae'r cynllun yn cloi fel hyn: "Mae NEU Cymru yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gennyn ni gynllun i helpu plant a phobl ifanc i ddysgu wrth inni adfer o'r pandemig."

Maniffesto'r Undeb ar gyfer y Llywodraeth nesaf

RHAID i addysg deg i bawb fod yn ganolog i agenda Llywodraeth nesaf Cymru ar ôl yr etholiadau ar 6 Mai, meddai NEU Cymru.

Mae'r undeb wedi amlinellu'r prif bethau mae'n galw amdanyn nhw mewn maniffesto i'r weinyddiaeth nesaf ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig, waeth beth fydd gwleidyddiaeth y weinyddiaeth honno.

"Os yw Covid-19 wedi dysgu unrhyw beth inni, pwysigrwydd addysg wrth gefnogi ein plant, ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau yw hwnnw", meddai'r maniffesto.

"Credwn fod yn rhaid i **#AddysgDegIBawb** fod yn gonglfaen i Lywodraeth nesaf Cymru – sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael addysg a fydd yn cefnogi'u lles ac yn eu helpu i ffynnu fel dinasyddion Cymru yn y dyfodol."

Mae'r undeb wedi amlinellu tri phrif faes y dylai gwneuthurwyr polisi'r dyfodol roi sylw iddyn nhw.

■ Gwneud dysgu'n deg

Byddai hyn yn golygu system addysg wedi'i chyllido'n llawn gyda'r cwricwlwm newydd sydd i'w gyflwyno yn 2022; rhoi diwedd ar brofion cenedlaethol; a chefnogi lles meddyliol pob plentyn a pherson ifanc.

■ Lleihau costau mynd i'r ysgol a'r coleg

Darparu wi-fi ac offer TG addas; sicrhau bod pob teulu sy'n cael y Credyd Cynhwysol yn cael prydau ysgol am ddim yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol; gwneud gwisg ysgol yn fforddiadwy; a chynyddu'r lwfans cynhaliaeth addysg i fyfyrwyr Addysg Bellach o £30 i £45 yr wythnos.

■ Cefnogi'r gweithlu addysg

Mae'r undeb yn gofyn am gefnogaeth iechyd meddwl, cyd-fargeinio, cyflogau teg drwy'r sector, a gwarchod Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF). **neu.org.uk/neu-cymru**